

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ysbyty Glangwili

Dyddiad y gweithgarwch: 25 Tachwedd 2020

Dyddiad cyhoeddi: 23 Rhagfyr 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliwyd gwiriad ansawdd o bell gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Ward Tywi, Ysbyty Glangwili fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Phrif Nyrs y Ward a'r Uwch-reolwr Nyrsio ar 25 Tachwedd 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y ward yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu

hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Nodwyd bod ward Tywi'n cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd a'i bod wedi cael ei symud i ward Padarn (ward wag) tra bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Cawsom wybod mai yn sgil tri achos ar wahân o'r norofeirws ym mis Rhagfyr 2019 ac Ionawr 2020 y mae'r gwaith o adnewyddu'n cael ei gwblhau, a chysylltwyd yr achosion â'r amgylchedd gwael. Nodwyd y dylai'r ward fod wedi'i hadnewyddu'n gyfan gwbl ac yn barod i'w defnyddio unwaith eto erbyn mis Ionawr 2021.

Gwnaethom nodi bod archwiliadau asesiad risg amgylcheddol amrywiol wedi cael eu cwblhau ar lefel ward a bod mesurau rheoli ar waith. Dywedodd Prif Nyrs y Ward a'r Uwch-reolwr Nyrsio wrthym eu bod yn mynd ati'n rhagweithiol i fonitro amgylchedd y ward a chwblhau hapwiriadau bob dydd.

Cawsom wybod bod urddas y cleifion yn cael ei ddiogelu'n llawn drwy ddefnyddio llenni preifatrwydd. Nodwyd hefyd bod pegiau coch yn cael eu gosod ar ddrysau ciwbiclau er mwyn dangos i'r staff a'r ymwelwyr bod gofal a thriniaeth yn cael eu rhoi. Er na chaiff pegiau coch eu defnyddio ar ddrysau ciwbiclau'n aml, mae'n arfer da er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y cleifion a gaiff eu nyrsio mewn ystafelloedd sengl yn cael eu cynnal.

Cawsom wybod bod anghenion cymdeithasol, emosiynol, corfforol a diwylliannol y cleifion yn cael eu hasesu wrth iddynt gael eu derbyn i'r ward. Yn ogystal â hyn, cawsom wybod bod Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (y tîm PALS) ar gael i'r cleifion, sy'n ymgysylltu ag aelodau o'r teulu. Mae'r tîm PALS yn ymweld â'r ward yn ddyddiol ac yn trefnu i'r cleifion allu siarad ag aelodau o'r teulu'n uniongyrchol dros y ffôn neu ar ffurf galwad fideo. Mae'r tîm PALS hefyd yn trefnu i aelodau o'r teulu gasglu dillad y cleifion sydd angen eu golchi mewn ardaloedd casglu penodedig. Mae ffôn diwifr ar y ward at ddefnydd y cleifion ac darparodd y bwrdd iechyd ddau iPad i'r ward ar ddechrau'r pandemig er mwyn galluogi'r cleifion i gyfathrebu ag aelodau o'r teulu ar adegau pan oedd yr amseroedd ymweld yn gyfyngedig.

Cawsom wybod bod y staff yn cwblhau rhestr wirio 'rowndiau bwriadol' ar gyfer pob claf drwy gydol y dydd. Mae'r rhestr wirio 'rowndiau bwriadol' yn cynnwys cadw llygad ar bob claf er mwyn sicrhau bod ganddo bopeth sydd ei angen arno ac er mwyn sicrhau bod y staff yn fwy gweladwy i'r cleifion sy'n rhoi sicrwydd iddynt.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Caiff amrywiaeth o archwiliadau eu cynnal er mwyn cefnogi diogelwch y cleifion ar y ward, sy'n cynnwys archwiliadau ar gwympiadau a briwiau pwyso a niwed i'r feinwe. Gwnaethom edrych ar sampl ohonynt ac ar y cyfan, gwelsom fod nifer y cwympiadau, briwiau pwyso a niwed i'r meinwe yn uchel ar y ward.

Cawsom gynllun gweithredu manwl a ddatblygwyd gan Brif Nyrs y Ward ar gyfer cwympiadau, briwiau pwyso a niwed i'r meinwe a gafodd ei gymeradwyo gan y Pennaeth Nyrsio yn ddiweddar. Roedd y cynlluniau gweithredu'n cynnwys argymhellion a chanlyniadau clir, yn ogystal â'r manylion am y trefniadau monitro a gwerthuso. Gwnaethom nodi bod rhai o'r argymhellion eisoes wedi'u rhoi ar waith.

Rydym yn argymhell bod cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau'n cael ei gyflwyno i AGIC o fewn tri mis i ddyddiad y gwiriad ansawdd, fel y gallwn asesu'r cynnydd a wnaed i wella a chefnogi diogelwch y cleifion ar y ward.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod gan y ward nyrs gyswllt benodedig ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau ers dechrau'r pandemig, sy'n cadw mewn cysylltiad dyddiol â'r ward er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i ganllawiau neu arferion.

Cawsom wybod fod canllawiau penodol yn ystod COVID-19 ar gael ar atal a rheoli heintiau mewn lleoliadau gofal iechyd ar fewnwyd y bwrdd iechyd i bob aelod o'r staff. Yn ogystal â hynny, dywedwyd wrthym hefyd bod ffeil COVID-19 benodedig wedi cael ei chreu ar y ward i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff. At hynny, mae grŵp WhatsApp¹ wedi cael ei greu i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau ar unwaith. Gwnaethom hefyd nodi fod y Bwrdd Iechyd wedi cofrestru ar gyfer y llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol sydd ar gael yn electronig.

Dywedodd Prif Nyrs y Ward wrthym eu bod yn cynnal archwiliadau rheolaidd ar reoli heintiau, hylendid dwylo a glendid cyffredinol y ward. Gwnaethom fwrw golwg dros yr archwiliad hylendid dwylo diweddaraf a nodi eu bod wedi cyflawni sgôr o 100%.

Dywedwyd wrthym fod gan y ward ddigon o PPE a bod lefelau stoc yn cael eu monitro'n ddyddiol gan Brif Nyrs y Ward.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant rheoli heintiau. Ar 25 Tachwedd 2020, roedd yn dangos bod 80.65% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant. Cadarnhaodd Prif Nyrs y Ward fod

¹ Rhaglen gwibnegeseua aml-blatfform yw WhatsApp Messenger, sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Ffôn Windows a Nokia i anfon negeseuon testun, lluniau, fideos a negeseuon â sain.

trefniadau ar waith i neilltuo amser penodol i'r staff a oedd yn weddill, ac sydd angen adnewyddu eu hyfforddiant ar-lein, gwblhau'r hyfforddiant. Mae gan y staff fynediad at hyfforddiant 'gwisgo a diosg' PPE ar-lein ar ffurf fideo. Cawsom wybod hefyd bod pum aelod o'r staff ar y ward yn 'brofwyr ffit' cymwys ar gyfer masgiau FFP3.

Ni nodwyd unrhyw welliannau.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti'r ward, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Er mai dim ond ers mis Mawrth 2020 roedd Prif Nyrs y Ward wedi bod yn ei swydd, roedd yn glir ac yn wybodus iawn am ei rôl ac roedd yn amlwg bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers iddi ddechrau yno.

Gwelsom fod gan Brif Nyrs y Ward weithdrefnau addas ar waith er mwyn sicrhau bod lefelau staffio yn briodol ac yn cynyddu pan fo angen, er enghraifft cynnydd o ran lefelau dibyniaeth ar y ward neu absenoldeb staff. Mae Prif Nyrs y Ward yn sicrhau bod rotas yn cael eu creu chwe wythnos ymlaen llaw, a bod cymysgedd priodol o sgiliau'n cael eu rhannu. Yn ogystal â hyn, dywedodd Prif Nyrs y Ward wrthym fod staff banc neu asiantaeth yn cael eu trefnu mewn blociau lle y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau parhad gyda'r tîm nyrsio. Pe bai achos o aciwtedd uwch, cawsom wybod bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r angen i'w uwchgyfeirio i uwch-reolwyr a'i adolygu yn unol â pholisi Cymorth Uwch y byrddau iechyd.

Hefyd, cawsom wybodaeth am arfarniadau'r staff a nodwyd bod nifer fawr o'r aelodau o staff wedi cael arfarniad blynyddol ers i Brif Nyrs y Ward ddechrau yno. Ar 25 Tachwedd 2020, roedd yn dangos cyfradd gwblhau o 86.21%. Ar gyfer yr aelodau o staff sy'n disgwyl arfarniad blynyddol, cadarnhaodd Prif Nyrs y Ward fod trefniadau ar waith iddynt gael eu cwblhau'n amserol.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer y tîm nyrsio, a ddangosodd gyfradd gwblhau o 60.97%. Y rheswm pam bod y gyfradd gwblhau'n isel yw'r newidiadau i'r ffyrdd o weithio yn dilyn COVID-19, a'r anawsterau wrth gael gafael ar wasanaethau darparwyr gwasanaethau o dan yr amgylchiadau presennol. Gwnaethom dderbyn cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan

Brif Nyrs y Ward, a rhoddir ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r risgiau o beidio â darparu'r hyfforddiant gorfodol. Roedd hyn yn cynnwys parhau i adolygu argaeledd hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mewn achosion lle nad yw hyn yn bosibl, dylid ystyried p'un a ellir darparu'r hyfforddiant yn ddigidol ar ffurf electronig, megis gweminarau, fideo-gynadledda neu raglenni e-ddysgu. Mae Prif Nyrs y Ward wedi penodi hyrwyddwr Cofnod Staff Electronig (ESR) er mwyn helpu'r staff i lywio'r rhaglenni e-ddysgu gan ddefnyddio'r system ESR. Gwnaethom hefyd weld bod Prif Nyrs y Ward wedi cwblhau gwerthusiad manwl o anghenion hyfforddiant y tîm nyrsio, yn ogystal â datblygu cynllun hyfforddi er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn amserol.

Rydym yn argymhell bod cynllun gweithredu ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol yn cael ei gyflwyno i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd, fel y gallwn asesu'r cynnydd a wnaed i wella cyfradd yr hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei gwblhau.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ward Tywi, Ysbyty Glangwili

Dyddiad y gweithgarwch: 25 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rydym yn argymhell bod cynllun gweithredu ar gyfer cwmpadau, briwiau pwyso a niwed i'r meinwe'n cael ei gyflwyno i AGIC o fewn tri mis i ddyddiad y gwiriad ansawdd, fel y gallwn asesu'r cynnydd a wnaed i wella a chefnogi diogelwch y cleifion ar y ward.	Safon 2.2 Atal Briwiau Pwyso a Niwed i Feinweoedd Safon 2.3 Atal Cwmpadau	<ul style="list-style-type: none">Pob aelod o'r staff i gwblhau'r holl hyfforddiant E-ddysgu ar Purpose T.Trefnu hyfforddiant ar niwed pwyso mewn wardiau.Trefnu hyfforddiant pellach ar gwmpadau mewn wardiau, dogfennau ac	Prif Nyrs y Ward/ Uwch-reolwr Nyrsio Prif Nyrs y Ward/Gweithiwr Cymorth Hyfywedd Meinwe Prif Nyrs y Ward/Nyrs Datblygu Proffesiynol ac	28 Chwefror 2021. 18 Rhagfyr 2020. 10 Rhagfyr 2020.

			<p>eiddilwch.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dechreuodd y sesiynau addysgu ar eiddilwch ar 27 Tachwedd • Pob aelod o'r staff i fynychu sesiwn addysgu ar eiddilwch. 	<p>Ymarfer</p> <p>Prif Nyrs y Ward/Prif Nyrs y Ward/Ffisiotherapydd/Nyrs Datblygu Proffesiynol ac Ymarfer/Therapydd Galwedigaethol</p> <p>Prif Nyrs y Ward/Uwch-reolwr Nyrsio</p>	<p>27 Tachwedd 2020.</p> <p>29 Ionawr 2021.</p>
2	Rydym yn argymhell bod cynllun gweithredu ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol yn cael ei gyflwyno i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd, fel y gallwn asesu'r cynnydd a wnaed i wella cyfradd yr hyfforddiant gorfodol sy'n cael ei gwblhau.	Safon 7.1 Y Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen i'r gyfradd ar gyfer cwblhau hyfforddiant gorfodol, sef 65.5.% ar hyn o bryd, fod yn uwch na 80%. • Pob aelod o'r staff i gwblhau hyfforddiant mewnol pan fydd ar gael. Mae'r rhaglen hyfforddiant mewnol wedi'i lleihau yn sgil COVID-19. • Staff i flaenoriaethu 	<p>Prif Nyrs y Ward/Uwch-reolwr Nyrsio</p> <p>Prif Nyrs y Ward/Uwch-reolwr Nyrsio</p>	<p>28 Chwefror 2021.</p> <p>28 Chwefror 2021.</p>

			<p>elfennau e-ddysgu o hyfforddiant gorfodol yn sgil absenoldeb hyfforddiant wyneb yn wyneb.</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu a threfnu sesiynau senarios tân a thrawiad ar y galon mewn wardiau er mwyn llenwi'r bwlch nes bod sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb ar gael yn dilyn y pandemig. 	<p>Prif Nyrs y Ward/ Uwch-reolwr Nyrsio</p> <p>Prif Nyrs y Ward/ Uwch-reolwr Nyrsio Cynghorydd Diogelwch Tân/Cynghorydd Efelychu a Dadebru</p>	<p>31 Ionawr 2020.</p>
--	--	--	--	--	----------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Emma O'Rourke (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda - Prif Nyrs y Ward)

Dyddiad: 09/12/2020